Department for Education

# Ymgynghoriad ar y cynllun pensiwn athrawon (TPS): rheoliadau pellach i gwblhau'r diwygiadau

## Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth.

Hydref 2014

# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Diwygio pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus a'r TPS 3

Pam y gwnaeth yr Adran ymgynghori ar newidiadau pellach i drefniadau'r TPS 4

Y broses ymgynghori 4

**Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth** 5

Cwestiynau'r Ymgynghoriad a'r Ymatebion 6

Cwestiwn 1: A ydych o'r farn bod yr Adran wedi cwmpasu'r hyn sy'n ofynnol o dan y cyfarwyddiadau prisio yn addas? 6

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â Chwestiwn 1 6

Cwestiwn 2: A oes unrhyw beth arall y dylai'r Adran ei gwmpasu wrth bennu'r broses o ymdrin â thorri'r cap ar gostau cyflogwyr? 7

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â Chwestiwn 2 7

Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r hyn a gynigir i sicrhau mai cyflogwyr sy'n ysgwyddo costau gweinyddol y cynllun o fis Medi 2015? 8

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 3 8

Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr haenau cyfraniadau a gynigir a'r trefniadau ar gyfer cyfraniadau aelodau o 1 Ebrill 2015? 10

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 4 10

Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r trefniadau trosglwyddo newydd neu'r cynnig i ddarparu cyfnod pontio er mwyn rhoi mwy o amser i aelodau yr effeithir arnynt ddewis trosglwyddo eu gwasanaeth blaenorol yn unol â threfniadau cymaradwy yn y DU (CUKS) neu drefniadau cymaradwy o fewn gwasanaethau Prydeinig (CBS)? 13

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 5 13

Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â’r diwygiadau arfaethedig a nodir yn rhannau 5 a 6 (o'r ddogfen ymgynghori)? 15

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 6 15

Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori? 16

Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 7 16

Ymateb cyffredinol y Llywodraeth 17

Y camau nesaf 18

Atodiad A: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad 19

# Cyflwyniad

## Diwygio pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus a'r TPS

1. Yn dilyn argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus, a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Hutton o Furness, mae pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy yn yr hirdymor, ac yn decach i aelodau a'r trethdalwr.

2. Ar 9 Mawrth 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg (yr Adran) Gytundeb Terfynol Arfaethedig (PFA) a nododd y fframwaith ar gyfer TPS diwygiedig. Ymhlith darpariaethau allweddol y cynllun diwygiedig mae'r canlynol: pensiwn yn seiliedig ar enillion cyfartalog gyrfa gyfan; cyfradd gronni o 1/57fed; ac Oedran Pensiwn Arferol (NPA) sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond gydag opsiynau i alluogi aelodau'r cynllun i ymddeol yn gynharach neu'n ddiweddarach na'u NPA.

3. Ar ôl trafodaethau manwl gyda grwpiau cynrychioliadol a dau ymgynghoriad cyhoeddus â rhanddeiliad (a lansiwyd ar 7 Mai a 13 Medi 2013), mae'r Adran wedi paratoi'r rheoliadau terfynol – Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 – sy'n cwmpasu prif ddarpariaethau'r TPS diwygiedig. Fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ym mis Mawrth 2014 ac maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer trefniadau cyfartaledd gyrfa yn y TPS yn ogystal â chyfnod pontio ar gyfer y trefniadau hynny.

4. Ceir manylion llawn y PFA a'r ymgynghoriadau yn https://www.gov.uk/government/collections/teachers-pension-scheme a gellir gweld Rheoliadau TPS 2014 yn http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/512/contents/made

5. Bydd y diwygiadau i'r TPS yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn un o'r rhai gorau sydd ar gael – gyda lefelau gwarantedig o fuddiannau a diogelwch rhag chwyddiant. Bydd yn rhoi pensiwn cynaliadwy o ansawdd uchel i aelodau sy'n adlewyrchu eu gwasanaeth gwerthfawr i fyd addysg, a bydd yn helpu cyflogwyr i ddenu a chadw athrawon rhagorol.

## Pam y gwnaeth yr Adran ymgynghori ar newidiadau pellach i drefniadau'r TPS

6. Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriadau cynharach, mae angen deddfwriaeth bellach er mwyn cwblhau'r trefniadau llawn ar gyfer y TPS diwygiedig, oherwydd y canlynol:

- roedd rhai meysydd polisi y tu allan i brif strwythur rheoliadau'r TPS yn cael eu datblygu ar wahân (e.e. polisi prisio'r cynllun);
- roedd y diwygiadau yn golygu bod angen gwneud rhai gwelliannau canlyniadol i'r trefniadau a oedd yn bodoli eisoes yn Rheoliadau Pensiwn Athrawon 2010;
- roedd yr Adran wedi nodi nifer o ddiwygiadau amrywiol yr oedd angen eu gwneud i'r trefniadau TPS cyffredinol er mwyn gwella/egluro sut maent yn gweithio.

7. Yn yr ymgynghoriad ar y newidiadau pellach, ac yn y rheoliadau drafft a ddarparwyd fel rhan ohono, nododd yr Adran sut mae'n bwriadu ymdrin â'r materion hyn. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- ychwanegiadau at Reoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014;
- diwygiadau i Reoliadau Pensiwn Athrawon 2010.

8. Mae'r cynigion a'r rheoliadau yn cwblhau'r darpariaethau deddfwriaethol sydd eu hangen i sicrhau bod y TPS yn parhau i weithredu'n effeithiol o 1 Ebrill 2015, yn enwedig er mwyn sicrhau y gall y trefniadau cyflog terfynol presennol a'r trefniadau diwygio weithio'n briodol gyda'i gilydd yn unol â'r PFA. Fodd bynnag, dylid nodi'r adran ar y camau nesaf ynghylch cynlluniau i ddiweddaru'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer ymddeol cyn pryd a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

9. Caiff y rheoliadau diwygio yr ymgynghorir yn eu cylch eu gwneud o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Deddf Blwydd-daliadau 1972.

## Y broses ymgynghori

10. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 28 Ebrill 2014 a 18 Gorffennaf 2014. Roedd y ddogfen ymgynghori a'r rheoliadau drafft ar gael ar wefan Gov.UK a gellid anfon ymatebion i'r Adran Addysg drwy e-bost neu drwy'r post.

11. Ar ôl cael eu cyhoeddi, anfonwyd manylion yr ymgynghoriad at bob grŵp rhanddeiliaid a chorff cynrychioliadol allweddol, gan gynnwys undebau athrawon a chymdeithasau cyflogwyr. Sicrhaodd yr Adran hefyd fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi mewn man amlwg ar wefan gweinyddwr y cynllun (Teachers' Pensions), a'i bod yn hawdd i aelodau a chyflogwyr gael mynediad iddi drwy glicio ar ddolen. At hynny, mae'r Adran wedi ymgysylltu'n rhagweithiol ag undebau a chyflogwr a chyfarfod â hwy er mwyn trafod y cynigion, cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ymgynghori.

# Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth

12. Cafwyd cyfanswm o 18 o ymatebion ysgrifenedig. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan undebau athrawon, colegau, awdurdodau lleol a chynrychiolwyr cyflogwyr.

| Math o Ymatebydd | Ymatebion | |
|---|---|---|
| Undeb Llafur | 8 | 44% |
| Coleg | 1 | 6% |
| Awdurdodau Lleol | 4 | 22% |
| Cynrychiolydd Cyflogwyr | 4 | 22% |
| Di-enw | 1 | 6% |
| **Cyfanswm:** | **18** | **100%** |

13. Mae'r Adran wedi ystyried pob ymateb a nodir isod grynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd o dan bob adran a chwestiwn o'r ymgynghoriad, ynghyd â safbwynt terfynol yr Adran.

14. Cododd nifer sylweddol o ymatebwyr faterion a oedd yn cyfeirio at b'un a ddylid diwygio cynlluniau'r sector cyhoeddus. Roedd y rheini yn cynnwys honiadau nad oes angen newid strwythur presennol y TPS; bod y TPS fel mae'n sefyll ar hyn o bryd yn fforddiadwy ac yn deg; bod y trefniadau prisio newydd yn amhriodol; ac nad yw'n briodol newid yr oedran pensiwn arferol ar gyfer athrawon i oedran pensiwn y wladwriaeth o ystyried gofynion corfforol a meddyliol addysgu.

15. Er bod yr Adran yn cydnabod y sylwadau hyn, nid yw'n bwriadu ymateb yn fanwl iddynt fan hyn. Mae'r Adran o'r farn bod yr Arglwydd Hutton wedi nodi'r achos dros ddiwygio yn glir, a bod y trefniadau ar gyfer prisio'r cynllun a'r strwythur cyffredinol ar gyfer y TPS diwygiedig eisoes wedi'u pennu, yn dilyn negodiadau ac ymgynghoriadau hir a manwl gyda rhanddeiliaid. At hynny, roedd a wnelo'r ymgynghoriad hwn â manylion pellach sut y câi'r diwygiadau eu rhoi ar waith, ac yn y pen draw bydd y TPS diwygiedig:

- yn cynnig pensiynau sy'n parhau ymhlith y pensiynau gorau sydd ar gael;
- yn deg i aelodau a threthdalwyr;
- yn gynaliadwy;
- yn cael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n diogelu aelodau presennol y TPS yn effeithiol ac yn briodol, gan gynnig diogelwch llawn i bensiynau sydd eisoes wedi cronni ac i'r rheini sydd agosaf at ymddeol.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad a'r Ymatebion

16. Gofynnodd yr Adran am safbwyntiau rhanddeiliaid am y cynigion pellach a'r rheoliadau drafft sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r trefniadau ar gyfer y TPS diwygiedig. Gofynnodd saith cwestiwn penodol am y cynigion hynny a'r rheoliadau drafft, ac ymdrinnir â hwy isod:

### Cwestiwn 1: A ydych o'r farn bod yr Adran wedi cwmpasu'r hyn sy'n ofynnol o dan y cyfarwyddiadau prisio yn addas?

17. Roedd yr ymatebwyr hynny a gyflwynodd sylwadau ynghylch y graddau y mae'r rheoliadau yn darparu yr hyn sydd ei angen i gydymffurfio â chyfarwyddiadau prisio Trysorlys EM yn cytuno ei bod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn canolbwyntio ar briodolrwydd y trefniadau prisio ac effaith canlyniadau'r prisiad o'r TPS.

18. Nododd yr undebau athrawon fod gormod o gyfarwyddyd canolog gan Drysorlys EM, a oedd yn golygu nad oedd digon o gyfleoedd i gynlluniau bennu rhagdybiaethau yn benodol ar gyfer eu gweithluoedd. Roeddent hefyd yn amau priodolrwydd y gyfradd ddisgowntio wedi'i diweddaru a ph'un ai nod y broses oedd codi mwy o arian gan athrawon a chyflogwyr yn hytrach na sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy.

19. Nododd cyflogwyr unigol a chynrychiolwyr cyflogwyr effaith y cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau ar gyllidebau cyflogwyr. Er eu bod yn gwerthfawrogi na fyddai'r cynnydd yn cael ei weithredu tan 1 Medi 2015, maent yn pryderu ynghylch yr effaith negyddol a gaiff y cynnydd ar wariant sefydliadau addysgol, yn enwedig o'i ystyried ochr yn ochr â'r cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol o fis Ebrill 2016 a fydd yn deillio o newidiadau i drefniadau pensiwn y wladwriaeth.

### Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â Chwestiwn 1

20. Noda'r Adran y sylwadau a wnaed ond gan nodi bod y trefniadau prisio a'r gyfradd ddisgowntio eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriadau ar wahân a gynhaliwyd gan Drysorlys EM. Hoffai nodi hefyd fod yr Arglwydd Hutton wedi nodi'r achos dros newid yn glir yn hyn o beth, yn arbennig o ran y gyfradd ddisgowntio, er mwyn sicrhau bod trefniadau yn darparu adlewyrchiad gwell o'r costau llawn. Mae'r Adran yn deall effaith y newidiadau o ran cyfraddau cyfraniadau ar gyflogwyr ac aelodau ond yn credu o hyd eu bod yn rhannau angenrheidiol o'r newidiadau cyffredinol sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y TPS yn gynaliadwy.

21. Daw'r Adran i'r casgliad bod y rheoliadau drafft ar drefniadau prisio yn cwmpasu'r hyn sydd ei angen yn briodol a bydd yn bwrw ati i'w llunio ar eu ffurf derfynol ar y sail honno.

## Cwestiwn 2: A oes unrhyw beth arall y dylai'r Adran ei gwmpasu wrth bennu'r broses o ymdrin â thorri'r cap ar gostau cyflogwyr?

22. Roedd yr holl ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn cytuno'n gryf mai bwrdd cynghori'r cynllun yw'r corff priodol i fod wrth wraidd y broses ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri'r cap ar gostau. Cafwyd sylwadau gan nifer o undebau athrawon y dylai'r broses sicrhau bod cyfleoedd i ymgynghori ar bob opsiwn rhesymol a gaiff ei nodi ac nid dim ond yr opsiynau hynny y ceir cytundeb yn eu cylch, ar y sail y gall fod rhesymau dilys dros anghytuno ar rai opsiynau. At hynny, dadleuodd un ymatebydd y dylai fod gan fwrdd cynghori'r cynllun rôl ehangach, ac na ddylid ei gyfyngu i rôl gynghori yn unig.

23. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ystyried materion a rhoi atebion ar waith, ond nododd rhai y byddai'n bwysig sicrhau cynnydd unwaith yr oedd mater wedi dod i'r amlwg. Nodwyd hefyd fod monitro a chyfathrebu parhaus yn bwysig er mwyn ceisio osgoi unrhyw achosion o dorri'r cap yn y lle cyntaf os yn bosibl.

## Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â Chwestiwn 2

24. Mae'r Adran yn nodi'r consensws y dylai bwrdd cynghori'r cynllun chwarae rhan ganolog wrth ystyried sut i ymdrin ag unrhyw achos o dorri'r cap ar gostau ac yn falch bod consensws ynghylch y mater hwn. Mae'r Adran o'r farn bod y broses a gynigir yn darparu system gadarn ar gyfer nodi'r opsiwn/ateb gorau i unrhyw achos o dorri'r cap. Mae hefyd o'r farn nad yw'r trefniadau yn atal unrhyw opsiynau eraill a gyflwynir rhag cael eu hystyried (gan gynnwys cynnal ymgynghoriad ehangach arnynt) lle na fydd y bwrdd wedi dod i gytundeb mewn perthynas ag ateb a argymhellwyd. Fodd bynnag, nid yw'r Adran yn awyddus i ymrwymo i ddull ymgynghori penodol ar hyn o bryd.

25. Noda'r Adran y sylwadau o ran p'un a yw rôl bwrdd cynghori'r cynllun yn rhy gyfyngedig, ond hoffai nodi bod y mater hwn wedi cael cryn ystyriaeth eisoes. Yn y pen draw, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am bolisi'r cynllun ac o fewn hynny, mae'n rhaid iddo/iddi gytuno i unrhyw argymhelliad ar y camau i'w cymryd - yn unol â darpariaethau Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Hoffai'r Adran nodi hefyd mai ychwanegu at y trefniadau ar gyfer rheoli'r TPS a chyfathrebu â rhanddeiliaid y bydd y bwrdd yn ei wneud yn hytrach na lleihau'r trefniadau hynny, ac y bydd y trefniadau hynny yn gyffredinol yn sicrhau y bydd y trefniadau ar gyfer rheoli cyllid y cynllun a chyfathrebu yn ei gylch yn parhau'n effeithiol.

26. Daw'r Adran i'r casgliad fod y broses a'r rolau a gynigir os ceir achos o dorri'r cap ar gostau yn briodol ac yn effeithiol. Felly mae'n cynnig y dylid llunio'r rheoliadau terfynol ar y sail honno. Fodd bynnag, mae'n cydnabod yr angen i adeiladu ar yr hyn a gynhwyswyd yn y rheoliadau drafft er mwyn sicrhau bod priod rolau'r Ysgrifennydd Gwladol a Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn gliriach, a bydd yn diwygio'r rheoliadau terfynol yn unol â hynny.

## Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r hyn a gynigir i sicrhau mai cyflogwyr sy'n ysgwyddo costau gweinyddol y cynllun o fis Medi 2015?

27. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn derbyn neu'n cefnogi'r achos dros sicrhau mai cyflogwyr sy'n ysgwyddo'r costau hyn. Nododd y rheini na ddatganodd eu bod yn cefnogi'r cynnig hwn eu bod yn awyddus i gael rhagor o fanylion ar union gyfansoddiad y costau dan sylw cyn llunio barn.

28. Codwyd rhai pryderon ynghylch y systemau ar gyfer rheoli newidiadau mewn costau yn y dyfodol a ph'un a fyddai'r datblygiad yn effeithio ar y gydberthynas rhwng gweinyddwr y cynllun a chyflogwyr. Nododd nifer fach o ymatebwyr hefyd y byddai'r datblygiad, er mai dim ond i raddau bach iawn, yn ychwanegu at y cynnydd mewn costau cyfraniadau y byddai cyflogwyr yn eu hwynebu. Awgrymodd o leiaf un ymatebydd y dylid trosglwyddo'r arbedion yng nghyllideb yr Adran i gyllidebau ysgolion.

## Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 3

29. Mae'r Adran yn gwerthfawrogi ac yn nodi'r sylwadau a wnaed. Gall yr Adran gadarnhau mai dim ond costau perthnasol gweinyddu'r cynllun o 1 Ebrill 2015 ymlaen a gwmpesir gan y tâl gweinyddol - er na fydd y tâl yn dechrau cael ei gasglu tan fis Medi 2015, yn unol â'r cytundeb i ohirio dechrau casglu'r cyfraniadau cyflogwyr uwch yn dilyn canlyniad y prisiad diweddaraf o'r cynllun.

30. Fodd bynnag, nid yw'r costau dan sylw wedi'u cyfyngu i'r costau sy'n gysylltiedig â'r contract gweinyddu gyda gweinyddwr y cynllun, Teachers' Pensions, ond maent hefyd yn cynnwys costau ar gyfer: cyngor cyfreithiol, meddygol, actiwaraidd ac archwilio; staff yr Adran sy'n ymwneud â rhedeg y Cynllun; ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Pensiwn a Bwrdd Cynghori'r Cynllun. Ar y cyfan, dyna pam y disgwylir y bydd y tâl gweinyddol yn ychwanegiad o 0.08% ar gyfradd cyfraniadau cyflogwyr.

31. Rhoddir cyfrif llawn am y costau dan sylw ac fe'u hadolygir yn rheolaidd, a disgwylir i Fwrdd Pensiynau'r TPS chwarae rhan ganolog yn y trefniadau monitro a rheoli cyffredinol. Os bydd profiad yn dangos y bu unrhyw achosion o orgasglu neu dangasglu, gwneir addasiad addas i'r tâl gweinyddol yn y dyfodol, a disgwylir y caiff adolygiad sylweddol (yn enwedig o'r costau a ragwelir ar gyfer y dyfodol) ei gynnal ochr yn ochr â phob cylch prisio. Yn y pen draw, dim ond yr hyn sydd ei angen i redeg y cynllun yn effeithiol er budd aelodau a chyflogwyr y bydd y broses hon yn ei gasglu - a bydd ganddynt ran uniongyrchol newydd i'w chwarae wrth lywio'r hyn y mae hynny yn ei olygu drwy Fwrdd Pensiynau'r TPS yn arbennig.

32. Noda'r Adran y sylwadau o ran costau i gyflogwyr ond mae o'r farn bod y cynnydd bach dan sylw yn cael ei wrthbwyso i raddau helaeth gan yr atebolrwydd a'r hyblygrwydd gwell a ddaw yn sgîl hynny. O fewn hynny, bydd y trefniadau yn galluogi cyflogwyr i chwarae rhan ganolog wrth lywio trefniadau gweinyddu a thrwy hynny, sicrhau eu bod yn

parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac i ddefnyddio trefniadau'r cynllun i'r eithaf i ategu'r gwaith o reoli eu gweithlu addysgu.

33. Ystyrir effaith trosglwyddo'r costau gweinyddu hyn ar gyllideb yr Adran fel rhan o'r setliad Adolygiad o Wariant nesaf, felly hefyd y pwysau ar gyllidebau ysgolion.

34. Daw'r Adran i'r casgliad y dylid gweithredu'r tâl gweinyddol o 1 Ebrill 2014, ond y dylid gohirio'r trefniadau ar gyfer casglu'r tâl tan fis Medi 2014, a bod y rheoliadau drafft yn darparu'n addas ar gyfer gwneud hynny. Noda'r awydd am fwy o eglurder o ran costau/cyllid a bydd yn sicrhau y caiff hyn ei ddarparu.

## Cwestiwn 4: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr haenau cyfraniadau a gynigir a'r trefniadau ar gyfer cyfraniadau aelodau o 1 Ebrill 2015?

35. Cyflwynodd bron bob ymatebydd (16 allan o 18) sylwadau fan hyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y newid arfaethedig i seilio haenau cyfraniadau ar enillion gwirioneddol yn deg. Nodwyd y byddai'r datblygiad yn helpu i ymdrin â materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd i'r unigolion ar gyflogau is a'i fod, felly, yn debygol o helpu i osgoi cynnydd yn nifer yr aelodau a fyddai'n eithrio o'r cynllun. Fodd bynnag, nodwyd y byddai aelodau llawn amser o bosibl o'r farn bod y datblygiad yn annheg gan y gallai arwain at sgil-effaith ar y cyfraddau cyfraniadau y mae'n ofynnol iddynt eu talu.

36. Roedd cefnogaeth gyffredinol hefyd i uwchraddio'r haenau bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Fodd bynnag, roedd gan ymatebwyr wahanol safbwyntiau ar strwythur arfaethedig y cyfraniadau. Roedd rhai o blaid y strwythur, yn enwedig y gostyngiad yn y gwahaniaeth rhwng yr haenau uchaf a'r haenau isaf, a'r cynnydd yn y cyflog uchaf ar gyfer yr haen isaf. Nid oedd eraill o blaid y strwythur ac yn arbennig, nodwyd y materion a'r awgrymiadau canlynol:-

- Byddai cyfradd sengl yn decach ac yn symlach i'w gweinyddu.
- Nid oes unrhyw sail actiwaraidd dros gyfraniadau fesul haen i gynllun CARE.
- Gallai lleihau'r haenau yn raddol arwain at broblemau o ran eu cyflwyno.
- Gellid pennu cyfradd sengl ar gyfer athrawon cyflenwi er mwyn atal amrywiadau o fis i fis rhwng bandiau.
- Dylid dyrannu cyfradd cyfraniadau i'r rheini â mwy nag un swydd gan ddefnyddio cyfanswm yr holl swyddi.
- Dylid adolygu'r strwythur yn ystod pob ymarfer prisio, gyda'r bwriad o anelu at gyfradd sengl.
- Y dewis strwythur oedd strwythur dwy haen.
- Y dewis strwythur oedd cadw wyth haen.
- Pryderon y byddai effaith rhyddhad treth yn golygu na fyddai'r haenau yn deg.
- Pryderon o ran yr effaith ar recriwtio a chadw arweinwyr ysgol.
- Pryderon o ran yr effaith ar y rheini sy'n ennill llai na £15,000.
- Gwrthwynebiad cyffredinol i gyfraniad cyfartalog o 9.6% i aelodau'r cynllun.

## Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 4

37. Mae'r Adran yn croesawu'r sylwadau a gafwyd ac yn eu cydnabod. Mae'r maes hwn yn un cymhleth lle mae amrywiaeth eang o faterion ac effeithiau i'w hystyried, ac roedd yn destun cryn drafodaeth gyda grwpiau cynrychioliadol cyn llunio'r cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad.

38. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strwythur cyfraniadau arfaethedig, mae'r Adran wedi ystyried y rhan fwyaf o'r materion, os nad pob un, a godwyd gan ymatebwyr. Er enghraifft, ystyriodd yr Adran yr achos o blaid cyfradd cyfraniadau sengl a daeth i'r casgliad bod yr ymrwymiad i ddiogelu'r rhai ar y cyflogau isaf, ynghyd â'r ffaith y bydd nifer fawr o aelodau gweithredol yn parhau i gael elfennau sylweddol o wasanaeth cyflog terfynol yn y cynllun, yn cyfiawnhau'r penderfyniad i gadw cyfraniadau fesul haen yn ystod y cyfnod prisio pedair blynedd nesaf.

39. Rhoddodd yr Adran gryn ystyriaeth i gyfansoddiad yr haenau cyfraniadau ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Er enghraifft, ystyriodd yr effaith ar y rheini sy'n ennill llai na £15,000 ac mae wedi sicrhau, o dan y strwythur hwn, y bydd yr unigolion hyn yn parhau i dalu cyfraniadau sylweddol is na'r cyfartaledd o 9.6%. Ystyriodd hefyd effaith bosibl cyfraniadau fesul haen ar recriwtio a chadw arweinwyr ysgol tra'n datblygu'r strwythur hwn ac roedd hyn yn un o'r ffactorau a arweiniodd at y penderfyniad i leihau'r gwahaniaeth canrannol rhwng yr haenau uchaf a'r haenau isaf.

40. Mae'r Adran yn cydnabod bod dadl o blaid gostyngiad pellach yn nifer yr haenau a'r amrywiadau rhyngddynt, ar y sail bod trefniadau cyfartaledd gyrfa yn dueddol o fod o fudd i bob aelod yn gymesur, ac nad ydynt yn rhoi mantais annheg i bobl ar gyflogau uchel. Fodd bynnag, noda'r Adran hefyd y bydd y gwasanaeth cyflog terfynol cronedig yn fwy buddiol i'r unigolion hynny ar gyflogau uwch na'r rheini ar gyflogau is, ac y bydd hyn yn dueddol o barhau, ni waeth p'un a ydynt yn aelodau gwarchodedig ai peidio, oherwydd y diogelwch pellach sydd ar gael i bob aelod drwy'r cyswllt cyflog terfynol. At hynny, yn y tymor byrrach o leiaf, mae'r rheini yn yr haenau cyflogau uwch yn debygol o ddenu gwasanaeth cyflog terfynol cyfrannol uwch o ystyried patrymau dilyniant gyrfa arferol.

41. O ran y materion eraill a godwyd gan ymatebwyr, mae'r Adran yn cydnabod y gall cyfraddau cyfraniadau amrywio ar gyfer athrawon cyflenwi ond yn y pen draw, mae o'r farn y byddai'n annheg eu trin yn wahanol wrth bennu'r cyfraniadau sy'n daladwy. Dylid trin pob cyflogaeth yn annibynnol a dylid cymhwyso'r haen cyfraniadau sy'n berthnasol i'r enillion gwirioneddol ym mhob cyflogaeth. Mae'r Adran yn gwerthfawrogi y gall fod problemau cyfathrebu a phroblemau gweinyddol mewn perthynas ag athrawon cyflenwi rhan amser y mae eu henillion yn amrywio o fis i fis neu athrawon sy'n gweithio mewn mwy nag un cyflogaeth neu gyflogaethau sy'n cyd-redeg ag enillion gwahanol. Serch hynny, yn ystod blwyddyn ariannol, bydd y cyfraniadau cyfartalog sy'n daladwy gan athrawon cyflenwi yn deg. Gall yr Adran hefyd gadarnhau ei bod wedi ystyried effaith trethiant ar enillion a chyfraniadau cyffredinol wrth ddatblygu'r strwythur arfaethedig hwn.

42. Ar y cyfan, mae'r Adran o'r farn mai'r strwythur a'r trefniadau arfaethedig sy'n rhoi'r cydbwysedd gorau sydd ar gael ar hyn o bryd o'u hystyried yn erbyn y materion allweddol dan sylw h.y yr angen i ddiogelu'r unigolion hynny ar y cyflogau isaf; y newid mewn deinamig yn deillio o'r datblygiad i drefniadau cyfartaledd gyrfa; y fantais sy'n weddill o'r gwasanaeth cyflog terfynol a gronnwyd eisoes; ac ati.

43. Gan y bydd y ddadl o blaid ac yn erbyn haenau cyfraniadau yn parhau i esblygu dros y cylchoedd prisio nesaf, mae'r Adran yn cynnig y dylid dychwelyd at y mater hwn

pan gynhelir y prisiad nesaf o'r TPS, ac y dylid rhoi unrhyw newidiadau a bennir ar waith ochr yn ochr â chanlyniad y prisiad hwnnw.  Er bod rhagdybiaeth y bydd yr achos o blaid gostwng nifer yr haenau a'r gwahaniaethau rhyngddynt yn cryfhau, cynhelir adolygiad llawn a bydd yr adolygiad hwnnw yn ystyried yr un ffactorau a ystyriwyd y tro hwn.

44. Ar bwynt terfynol, noda'r Adran y sylwadau na chyflwynwyd unrhyw gyfiawnhad i gefnogi'r cynnydd o ran cyfraniadau aelodau i'r cyfartaledd o 9.6%.  Er y bu hyn yn destun trafodaethau/ymgynghori blaenorol, byddai'r Adran unwaith eto yn gwrthod honiadau o'r fath ac yn cyfeirio at y cyfiawnhad a ddarparwyd gan yr Arglwydd Hutton ochr yn ochr â chanlyniad y prisiad diweddar o'r TPS.  Mae angen y cynnydd er mwyn sicrhau bod y cynllun yn fwy cynaliadwy ac yn decach, ac o fewn hynny, i adlewyrchu mai'r aelodau, ar gyfartaledd, sydd wedi elwa ar welliannau o ran hirhoedledd.

45. I gloi, mae'r Adran yn parhau o'r farn bod y strwythur cyfraniadau a'r trefniadau arfaethedig yn briodol ac yn cyflawni'r amcan polisi ar hyn o bryd.  Felly, bydd y rheoliadau drafft yn ffurfio'r rheoliadau terfynol, ond cynhelir adolygiadau pellach o'r trefniadau yn unol â'r amserlen ar gyfer prisiadau yn y dyfodol.

### Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r trefniadau trosglwyddo newydd neu'r cynnig i ddarparu cyfnod pontio er mwyn rhoi mwy o amser i aelodau yr effeithir arnynt ddewis trosglwyddo eu gwasanaeth blaenorol yn unol â threfniadau cymaradwy yn y DU (CUKS) neu drefniadau cymaradwy o fewn gwasanaethau Prydeinig (CBS)?

46. Yn gyffredinol, mae'r ymatebwyr yn croesawu'r ffaith y bydd trefniadau clwb trosglwyddo yn parhau. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf yr angen am fwy o ganllawiau ar yr union ffordd y bydd trefniadau clwb yn gweithio yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer achosion o drosglwyddo rhwng y TPS a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a chododd eraill bryderon am gost achosion o'r fath o drosglwyddo i'r TPS.

47. Croesawodd pob ymatebydd, fwy neu lai, y terfynau amser arfaethedig ar gyfer trosglwyddiadau clwb ond cododd un bryderon na fyddai trosglwyddiadau o'r fath yn bosibl pan fo aelod wedi cael toriad o fwy na phum mlynedd mewn gwasanaeth cyhoeddus pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y rheini a ymatebodd yn croesawu'r terfyn amser estynedig arfaethedig (hyd at 31 Mawrth 2016) i aelodau drosglwyddo ar delerau CUKS neu CBS. Fodd bynnag, argymhellodd yr undebau athrawon y dylid ehangu hyn i ddwy flynedd (h.y. 31 Mawrth 2017).

### Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 5

48. Mae'r Adran yn croesawu'r sylwadau a gafwyd. Mae o'r farn bod y trefniadau trosglwyddo clwb yn rhan allweddol o'r broses o alluogi cyflogwyr athrawon, ac ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, i reoli eu gweithluoedd yn effeithiol, a'u bod yn hanfodol er mwyn sicrhau na fydd materion sy'n ymwneud â phensiwn yn atal unigolion rhag symud i weithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Adran yn cydnabod y pryderon ynghylch costau ac er y byddai'n dadlau bod y buddiannau yn gwrthbwyso'r pryderon hyn, bydd, serch hynny, yn parhau i fonitro'r mater a gweithredu arno. O fewn hynny, mae swyddogion yr Adran wedi gweithio'n agos â swyddogion o Drysorlys EM a chynlluniau gwasanaeth cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau, er enghraifft, bod sail y gwerth trosglwyddo yn adlewyrchu'r ffaith bod costau wedi'u rhannu rhwng cynlluniau trosglwyddo a'r cynlluniau derbyn lle bydd aelod yn trosglwyddo buddiannau Cyfartaledd Gyrfa â chyfradd mynegai gwasanaeth uwch. Byddant hefyd yn parhau i weithio gydag actiwari'r cynllun er mwyn sicrhau bod y trefniadau actiwaraidd yn deg.

49. Mae'r Adran, yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori, wedi anelu at nodi'r trefniadau newydd mor llawn a chlir â phosibl. Fodd bynnag, mae'n cydnabod yn llawn bod angen sicrhau y caiff pob cyflogwr ac aelod ganllawiau cynhwysfawr ar fanylion y trefniadau trosglwyddo clwb diwygiedig. Mae'r Adran yn gweithio'n agos â gweinyddwr y cynllun er mwyn sicrhau y caiff hyn ei ddarparu, fel bod pob parti yn deall y broses ac y gall wneud dewisiadau hyddysg am yr hyn sydd orau iddo. Mae'r Adran yn gweithio gyda Thrysorlys EM a'r cynlluniau eraill er mwyn sicrhau bod manylion llawn y trefniadau cyffredinol a'r trefniadau ar gyfer pob cynllun ar gael yn effeithiol.

50. Mae'r terfynau amser ar gyfer gwneud trosglwyddiad clwb yn unol â'r trefniadau y mae'r Llywodraeth wedi'u rhoi ar waith ar gyfer diogelu statws pensiwn cyfredol aelodau sy'n agos at yr oedran pensiwn arferol. Mae'r rhain yn caniatáu i aelod o'r TPS â diogelwch llawn, er enghraifft, gadw'r diogelwch hwnnw neu ddiogelwch tebyg os byddant yn cael toriad mewn gwasanaeth ac wedyn naill ai'n dychwelyd i'r TPS neu'n trosglwyddo i gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall (gan ddibynnu ar drefniadau'r cynllun newydd) heb doriad o fwy na phum mlynedd. Byddai'n amlwg yn amhriodol pennu cyfnod hwy o amser ar gyfer yr unigolion hynny sy'n trosglwyddo i gynllun arall yn hytrach na dychwelyd i'w cynllun gwreiddiol. Felly, er mwyn gweithredu trosglwyddiad clwb, ni ddylai'r toriad mewn gwasanaeth rhwng cynlluniau clwb fod yn fwy na phum mlynedd.

51. Mae'r Adran yn cydnabod ceisiadau i ehangu'r terfyn amser ar gyfer gwneud trosglwyddiad o dan delerau presennol CUKS neu CBS ymhellach. Ar ôl ystyried, fe'i darbwyllwyd y bydd yr amser ychwanegol yn helpu i sicrhau y caiff yr aelodau hynny yr effeithir arnynt ddigon o gyfle i fod yn ymwybodol o'r opsiwn hwn ac i fanteisio arno. O ganlyniad, bydd gan unrhyw aelod sy'n gadael trefniant CUKS neu CBS ac wedyn yn ymuno â'r TPS ar 31 Mawrth 2015 neu cyn hynny tan 31 Mawrth 2017 i ddewis trosglwyddiad CUKS neu CBS. Yn ogystal, bydd yr Adran, fel yr awgrymwyd gan ymatebwyr, yn sicrhau y darperir gohebiaeth gynhwysfawr ac effeithiol ar y mater hwn er mwyn ceisio sicrhau bod y terfyn amser diwygiedig wedi'i ddeall ac y gweithredir arno.

52. Yn gyffredinol, mae'r Adran o'r farn bod y rheoliadau drafft yn darparu'r hyn sydd ei angen mewn perthynas â throsglwyddiadau clwb, CUKS a CBS, ac eithrio'r terfyn amser diwygiedig mewn perthynas â'r olaf. Felly, bydd yr Adran yn llunio'r rheoliadau terfynol gan ystyried y terfyn amser diwygiedig ar gyfer trosglwyddo ar sail CUKS neu CBS, er mwyn gallu derbyn penderfyniadau i drosglwyddo am hyd at ddwy flynedd (h.y. hyd at 31 Mawrth 2017) o ran aelodau sydd wedi ymuno â'r TPS hyd at 31 Mawrth 2015.

## Cwestiwn 6: A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â’r diwygiadau arfaethedig a nodir yn rhannau 5 a 6 (o'r ddogfen ymgynghori)?

53. Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â nifer o ddiwygiadau technegol manwl a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori a'r rheoliadau drafft. Nododd pob un, fwy neu lai, o'r rheini a ymatebodd eu bod yn croesawu'r estyniad i'r terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau 'mewn swydd' ar gyfer ymddeol ar sail salwch, a dileu'r cyfyngiadau ar wasanaeth budd teuluol a throsglwyddiadau clwb ar ôl oedran pensiwn arferol.

54. Nododd yr undebau hefyd eu bod yn croesawu'r diffyg darpariaethau gostwng yn y trefniadau cyfartaledd gyrfa ond eu bod yn siomedig iawn bod trefniadau o'r fath yn cael eu cadw o ran pensiwn cyflog terfynol - ac y caiff pensiwn cyfartaledd gyrfa ei ystyried wrth benderfynu p'un a fydd gostyngiad yn berthnasol i'r pensiwn cyflog terfynol.

55. Nododd un ymatebydd fod angen diweddaru'r trefniadau ar gyfer iawndal ymddeol cyn pryd.

## Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 6

56. Mae'r Adran yn falch gyda'r ymateb ar y diwygiadau arfaethedig o ran ymddeol ar sail salwch, buddiannau teuluol a throsglwyddiadau. Drwy'r broses ddiwygio, mae'r Adran bob amser wedi anelu at weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod newidiadau nid yn unig yn rhoi'r trefniadau diwygio ar waith ond eu bod hefyd yn gwella'r ffordd y mae'r TPS yn gweithio er mwyn cefnogi athrawon a chyflogwyr.

57. Nodir y sylwadau ar ddarpariaethau gostwng. Nid oedd y trefniadau hyn yn rhan o'r ymgynghoriad diweddaraf hwn ac fe'u hystyriwyd yn flaenorol gan Drysorlys EM o fewn y broses ddiwygio. Mae'r darpariaethau gostwng yn rhan hirsefydledig o'r trefniadau cyflog terfynol o fewn y TPS presennol ac yn parhau i gael eu hystyried fel rhan hanfodol o reoli costau parhaus y trefniadau hynny. Roedd Trysorlys EM yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr wrth ddod i'r casgliad hwnnw ac felly, nid yw'r Adran yn bwriadu ceisio diwygio'r rheoliadau drafft.

58. Nid oes unrhyw sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn golygu bod angen newid y rheoliadau drafft ac, felly, bydd yr Adran yn eu defnyddio fel sail ar gyfer y rheoliadau terfynol. Fodd bynnag, noda'r Adran y sylwadau ar y trefniadau ymddeol cyn pryd a gall gadarnhau ei bod yn bwriadu eu diweddaru erbyn 1 Ebrill 2015, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol. Gweler yr adran ddiweddarach ar y camau nesaf i gael rhagor o fanylion.

## Cwestiwn 7: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori?

59. Manteisiodd un cyflogwr ar y cyfle hwn i dynnu sylw pellach at effaith cyfraniadau pensiwn uwch ar gyllidebau colegau ac, yn ei dro, yr effaith bosibl ar ddarpariaeth addysg.

60. Tynnodd pob un o'r undebau a ymatebodd sylw at eu pryderon difrifol o ran trefniadau aelodaeth y TPS. Maent yn pryderu nad ydynt yn ymdrin â rhai grwpiau penodol o athrawon sy'n gweithio i gyflogwyr nas cwmpesir gan y rheoliadau. Mae'r undebau o'r farn y dylai pawb sy'n gweithio fel athro gael yr un cyfle i ymaelodi â'r TPS ni waeth pwy sy'n eu cyflogi.

## Ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â chwestiwn 7

61. Mae'r Adran yn cydnabod y sylw ynghylch effaith costau cyfraniadau uwch ac mae wedi ymateb i hynny'n gynharach yn y ddogfen hon.

62. Cydnabyddir y pryderon a godwyd o ran aelodaeth hefyd. Mae'r Adran wedi gwneud newidiadau i drefniadau aelodaeth y cynllun, gan gynnwys rhai yn ystod y broses ddiwygio, er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y caiff addysg ei darparu. Fodd bynnag, ceir amgylchiadau o hyd sy'n atal rhai grwpiau penodol o athrawon rhag cymryd rhan yn y TPS, yn fwyaf nodedig, athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau sector preifat ac athrawon eraill a gyflogir gan gyrff sector cyhoeddus y tu allan i gytundeb Bargen Deg. Mae'r materion cysylltiedig yn gymhleth ac nid ydynt yn deillio o'r diwygiadau i'r cynllun nac yn ymwneud yn benodol â hwy. Bydd yr Adran yn ystyried y sylwadau a godwyd a'r materion cysylltiedig ymhellach ac yn ymateb iddynt ar wahân i'r ymgynghoriad hwn.

## Ymateb cyffredinol y Llywodraeth

63. Mae'r Adran yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan yr ymatebwyr wrth ystyried y materion dan sylw a chyflwyno sylwadau arnynt. Mae'r Adran wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn ofalus. Yn unol â'r ymatebion uchod, mae'r Adran o'r farn y dylai'r rheoliadau drafft nawr ffurfio sail ar gyfer y rheoliadau terfynol, ac eithrio'r diwygiadau a nodwyd, yn arbennig y terfyn amser ar gyfer trosglwyddo ar delerau CUKS a CBS a gaiff ei ymestyn flwyddyn fel y nodir uchod. Mae'r Adran yn cydnabod yr angen i sicrhau, er enghraifft, y caiff y rheoliadau eu hategu gan ganllawiau da a chlir ar gyfer aelodau a chyflogwyr. Bydd yr Adran yn gweithio gyda gweinyddwr y cynllun i sicrhau y caiff hyn ei ddarparu ac mewn perthynas â'r camau gweithredu eraill yr ymdrinnir â hwy yn yr ymateb hwn.

64. Fel y nodir uchod, mae'r Adran yn cydnabod nad yw nifer sylweddol o'r ymatebwyr, yn arbennig llawer o'r undebau, yn cytuno â'r achos dros ddiwygio. Serch hynny, mae'r Adran yn parhau o'r farn bod yr achos dros newid wedi'i brofi yn unol â pharagraff 15 uchod. At hynny, mae o'r farn bod y newidiadau a gyflwynwyd yn darparu cydbwysedd addas â'r angen i sicrhau bod y TPS yn fwy cynaliadwy ac yn decach i aelodau a threthdalwyr. Ar yr un pryd, mae'r trefniadau yn sicrhau y caiff hawliau a gronnwyd eu diogelu ac na fydd y rheini sy'n agos at oedran ymddeol, nad oes ganddynt lawer o amser i newid eu trefniadau cynilo neu gynllunio pensiwn, o dan anfantais annheg. Yn ogystal, mae'r Adran yn parhau o'r farn ei bod wedi cyflawni ei rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn briodol wrth ddatblygu'r newidiadau pellach hyn.

65. I gloi, bydd y newidiadau yr ymdrinnir â hwy yn yr ymgynghoriad hwn yn sicrhau bod trefniadau cyflog terfynol a chyfartaledd gyrfa yn cydweithio'n effeithiol, ac yn y pen draw, y bydd gan aelodau yr un cyfleoedd o hyd i gronni pensiynau da, sydd ymhlith y pensiynau gorau sydd ar gael.

# Y camau nesaf

66. Nawr bydd y rheoliadau drafft yn ffurfio sail ar gyfer y rheoliadau terfynol. Y nod yw cwblhau gwaith arnynt a'u gosod ger bron y Senedd ddechrau mis Hydref. Bydd hynny, yn ei dro, yn rhoi digon o amser i roi trefniadau cyfathrebu addas ar waith ac i ddarparu canllawiau ar yr holl newidiadau dan sylw, cyn iddynt ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2015.

67. Er bod y rheoliadau diwygio hyn yn cwblhau'r darlun diwygio ar gyfer y prif TPS, mae angen diwygiadau pellach i'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer Ymddeol Cyn Pryd a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n effeithiol pan gaiff y trefniadau diwygio eu cyflwyno. Bydd y newidiadau yn cynnwys diweddaru'r rheoliadau i ystyried trefniant 2014, heb unrhyw newid sylweddol i'r polisi dan sylw. Fodd bynnag, yn achos y rheoliadau ar gyfer Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, mae'r Adran bellach yn bwriadu ystyried y newidiadau a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb 2014 a rhoi mwy o hyblygrwydd i aelodau'r cynllun o ran sut y gallant gael gafael ar yr arian a fydd yn deillio o'r Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol - yn arbennig drwy ddod â'r gofyniad i gymryd blwydd-dal i ben a rhoi mwy o hyblygrwydd o ran trefnu cyfandaliad.

68. Mae'r Adran yn bwriadu gosod diwygiadau i'r rheoliadau ar gyfer Ymddeol Cyn Pryd a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol mewn pryd iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill a bydd yn rhoi mwy o fanylion ar y cynigion yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

# Atodiad A: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad

Nodir isod restr o'r bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

- Cymdeithas y Colegau (AoC)
- Cymdeithas yr Arweinwyr Ysgol a Choleg (ASCL)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cyngor Croydon
- Awdurdod Lleol Durham
- Cyngor Sir Swydd Hertford
- Cymdeithas Bwrsariaid Ysgolion Annibynnol (ISBA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)
- Coleg 6ed dosbarth Longley Park
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cymdeithas Genedlaethol y Penaethiaid (NAHT)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri/Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Gweithgor Blwydd-daliadau Athrawon - Ochr yr athrawon
- Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau (UCEA)
- Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU)
- Voice

Ymatebodd un Coleg yn ddienw.

Department for Education

© Crown copyright 2014

You may re-use this document/publication (not including logos) free of charge in any format or medium, under the terms of the Open Government Licence v2.0. Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

To view this licence:
visit www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2
email psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

About this publication:
enquiries www.education.gov.uk/contactus
download www.gov.uk/government/consultations

Reference: DFE-00611-2014W

Follow us on Twitter: @educationgovuk

Like us on Facebook: facebook.com/educationgovuk